Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ

Hywel

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Mehefin 2018

Amser: 08.30 - 09.12

Preifat

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AC (Cadeirydd) Julie James AC Paul Davies AC Rhun ap Iorwerth AC Gareth Bennett AC
Staff y Pwyllgor:	Siân Wilkins (Clerc)
Eraill yn bresennol	Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd, a oedd yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghynhadledd BIPA yn Sligo.

2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

3 Trefn busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

- Cynhelir pob pleidlais ynghylch Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn ystod trafodion Cyfnod 3.
- Bydd egwyl o 10 munud cyn dechrau trafodion Cyfnod 3.
- Ni fydd cyfnod pleidleisio heblaw yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Dydd Mercher

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

Dydd Mercher 4 Gorffennaf 2018 –

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Ardaloedd Menter: Mynd Ymhell? (60 munud)

3.4 Dadl Aelodau: Dewis y Cynnig ar gyfer y Ddadl

- Detholodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl ar 20 Mehefin 2018

NNDM6733

Simon Thomas

Jenny Rathbone

Dai Lloyd

David Melding

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) mai 21 Mehefin yw diwrnod aer glân;

b) effaith niweidiol llygredd aer ar ein hiechyd – mae ffigurau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod llygredd aer yn achosi 2,000 o farwolaethau y flwyddyn, sef 6 y cant o gyfanswm y marwolaethau yng Nghymru; a

c) bod yn rhaid delio â NO2 a mater gronynnol er mwyn goresgyn llygredd aer.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â llygredd aer parhaus a chyflwyno parthau aer glân i newid ymddygiad a gwella iechyd dinasyddion.

Cefnogwyr:

Rhun ap Iorwerth

Siân Gwenllian

Vikki Howells

Lee Waters

- Cytunodd Rheolwyr Busnes i gynnal y Ddadl Aelodau nesaf ar 4 Gorffennaf 2018, a dewisiwyd y cynnig a ganlyn:

NNDM6740

Lee Waters

Mick Antoniw

Llyr Gruffydd

Mike Hedges

Vikki Howells

Jane Hutt

Jenny Rathbone

Simon Thomas

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad ymchwiliad ar y cyd Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Phwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin ar y gwersi i'w dysgu yn sgil methiant Carillion.

2. Yn cydnabod adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar sut y mae GIG Lloegr yn rheoli'r contract gwasanaethau cymorth gofal sylfaenol gyda Capita.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi dadansoddiad o'r gwersi i Gymru o'r ddau adroddiad hyn.

Tŷ'r Cyffredin – Y Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol / Y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau – Carillion (Saesneg yn unig)

Swyddfa Archwilio Cymru – 'NHS England's management of the primary care support services contract with Capita' (Saesneg yn unig)

4 Deddfwriaeth

4.1 Y Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru)

Cadarnhaodd Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor ar 22 Mai i gyfeirio Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd ac ati) (Cymru) i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1, a chytunwyd ar 26 Hydref 2018 fel terfyn amser i'r Pwyllgor adrodd ar Gyfnod 1, a 14 Rhagfyr 2018 fel y dyddiad ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor.

4.2 Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)

Cytunodd Rheolwyr Busnes i'r cais gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ymestyn yr amser sydd ar gael ar gyfer gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1. Y dyddiad newydd ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1 yw dydd Mercher 18 Gorffennaf 2018 a'r dyddiad newydd ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 yw 26 Hydref 2018.

Fodd bynnag, pwysleisiodd Arweinydd y Tŷ y dylai'r Pwyllgor sicrhau bod ei adroddiad Cyfnod 1 yn trafod agweddau technegol ar y Bil fel mater o flaenoriaeth.

4.3 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion)

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Ardrethu Annomestig (Meithrinfeydd Planhigion).

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau er mwyn craffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y memorandwm erbyn 5 Gorffennaf 2018, fel y gellir cynnal dadl arno yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf.

4.4 Bil Awtistiaeth (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ymgynghori ar amserlen ar gyfer Cyfnod 1 a Chyfnod 2.

5 Pwyllgorau

5.1 Aelodaeth o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cymeradwyodd y Rheolwyr Busnes y papur, gan gytuno i ddychwelyd at y mater ymhen pythefnos am benderfyniad.

Unrhyw fater arall

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Llywydd fod llefarwyr y pleidiau yn cymryd gormod o amser wrth holi Ysgrifenyddion y Cabinet/Gweinidogion ynghylch datganiadau, a bod Ysgrifenyddion y Cabinet/Gweinidogion hefyd yn rhy hir yn ymateb. Gofynnodd i'r Aelodau fod yn fwy cryno i'w galluogi i alw cymaint o Aelodau â phosibl.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu rhoi papur ar yr agenda ar gyfer cyfarfod yr wythnos nesaf yn cynnig na ddylai arweinwyr y pleidiau bellach allu cymryd rhan yn y balot ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog, ac efallai y bydd Rheolwyr Busnes yn dymuno trafod hyn â'u grwpiau ymlaen llaw.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y gallai fod angen cynnal cyfarfod Cyfarfod Llawn ychwanegol ddydd Iau neu ddydd Gwener, oherwydd yr holl symud yn ôl ac ymlaen rhwng Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ynghylch Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) os byddai angen cynnal pleidlais ar Gynnid Cydsyniad Deddfwriaethol.